



Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bryn Onnen

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Trosolwg

Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchiïo yn yr ethos hapus a chartrefol sy'n bodoli yn Ysgol Bryn Onnen. Mae perthynas weithiol hyfryd rhwng y staff a'r disgyblion ac mae blaenoriaeth amlwg yn cael ei gosod ar wella lles y disgyblion. Mae bron bob disgybl yn gwybod at bwy i droi os oes angen clust i wrando ac, o ganlyniad, maent yn teimlo'n ddiogel iawn o fewn naws gynhwysol yr ysgol. Mae disgyblion yn gwrtais ac yn barchus at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda ac maent yn dangos cwrteisi a pharch at eraill.

Mae'r Gymraeg yn newydd i bob disgybl wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llafar wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud, ac, mae eu hymroddiad mewn gwersi yn dda. Ar y cyfan, mae eu medrau llythrennedd Saesneg a rhifedd yn datblygu'n bwrpasol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau'n ddigon effeithiol i ysgrifennu'n estynedig ar draws y meysydd dysgu. Yn ogystal, mae cynnydd disgyblion yn eu medrau digidol yn araf. Ar draws yr ysgol, mae ansawdd yr addysgu yn anghyson. Yn gyffredinol, nid yw athrawon yn sicrhau her gyson ar gyfer pob disgybl, sydd yn ei dro, yn arafu'r cynnydd yn eu dysgu.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu ethos tîm cryf ac ymdeimlad o berthyn ymysg y staff. Mae'r uwch dim rheoli newydd yn dechrau cyflawni eu rolau'n briodol ac yn cefnogi athrawon a chynorthwyyr yn gadarn. Mae gan arweinwyr drefniadau hunanwerthuso sefydlog i adnabod cryfderau a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Er hyn, nid ydynt bob tro'n gweithredu'n ddigon strategol a miniog i sicrhau gwelliannau mewn safonau dysgu ac addysgu. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r pennaeth a'r staff ac yn sicrhau bod trefniadau diogelu'r ysgol yn gadarn.

Argymhellion

- A1 Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel er mwyn gweithredu blaenoriaethau gwella'r ysgol yn fwy effeithiol
- A2 Codi safonau Cymraeg disgyblion, yn enwedig eu medrau ysgrifennu
- A3 Cysoni arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol a chodi disgwyliadau athrawon er mwyn darparu her gyson ar gyfer pob disgybl

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn cydweithio â'r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol. Dyma'r gweithgarwch dilynol ysgafnaf, gan nad yw'n statudol.



Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Bryn Onnen
Awdurdod lleol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	191
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	147
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	26
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%)	23.7%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%)	19.0%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	0.0%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	02/09/2019
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	06/07/2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	04/03/2024

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/05/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.